

**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF - BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ddydd Llun, 18 Tachwedd 2019 am 100.00am ym Mloc F, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J Rosser Y Cynghorydd R Yeo

**Swyddogion yn bresennol**

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms C Miles – Cyfreithiwr Gofal Plant

Ms A Browning, Pennaeth Gwasanaeth – Plant sy'n Derbyn Gofal

Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant

Ms C Jones – Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant

Ms J Thomas – Rheolwr Cwynion a Sicrhau Ansawdd, Gwasanaethau Cymdeithasol

Mrs J Clark, Pennaeth Diogelu

Ms S Longhurst, Rheolwraig Materion Datblygiad a Chyflawniad Carfan

Mr M Free, Rheolwr Gwasanaeth

Ms M Davies - TGP

**21 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon, S. Rees –Owen, J. James

**22 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**23 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau Gadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2019 yn rhai cywir.

**24 Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru**

Cyflwynodd Ms M Davies o Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru ei hun i Aelodau'r Pwyllgor ac eglurodd mai'r adroddiad ger eu bron yw'r adroddiad cyntaf ers iddi hi ddechrau yn y swydd o fewn TGP Cymru.

Cyflwynwyd trosolwg i'r aelodau o'r gwasanaeth a pha gyfraniad y mae'n ei ddarparu i bobl ifainc ac oedolion agored i niwed yn Rhondda Cynon Taf.

Roedd yr aelodau'n falch o weld bod atgyfeiriadau RhCT ar gyfer Cynigion

Gweithredol ac Eiriolaeth Seiliedig ar Faterion wedi dyblu o'u cymharu â'r chwarter blaenorol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am adroddiad cynhwysfawr iawn a **PHENDERFYNWYD** cydnabod ei gynnwys a'r gwaith a wnaed.

## 25 Adroddiad Blynyddol Meisgyn

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth ynghyd â'r Rheolwr Materion Datblygiad a Chyflawniad Carfan ddiweddiariad i Aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â'r gwaith a wnaed gan Meisgyn rhwng Ebrill 2018 a diwedd Mawrth 2019.

Nododd y Swyddogion fod Meisgyn wedi cyfrannu at y Dangosyddion Perfformiad Awdurdod Lleol canlynol:

- Canran y plant sy'n cael eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu;
- Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi dychwelyd adref yn ystod y flwyddyn.
- Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael 3 lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn
- Lleihau nifer y plant a phobl ifainc sy angen ymyrraeth gan wasanaethau statudol. A
- Hyd yr amser y mae plant a phobl ifainc yn aros yn rhan o'r system Derbyn Gofal.

Cafodd data o'r adroddiad blynyddol drafft ei gyflwyno i'r aelodau ynghyd â rhai astudiaethau achos addysgiadol iawn i'w hystyried.

Esboniodd y Swyddog fod aelodau o'r garfan wedi cael eu dosbarthu i garfanau hŷn Meisgyn yn ystod y 12 mis diwethaf, sydd wedi eu galluogi i wneud y mwyaf o'u gallu a'r gefnogaeth sydd ar gael i blant a theuluoedd.

Parhaodd y swyddogion trwy egluro y dylai'r Aelodau nodi bod yr ystadegau'n cwmpasu'r cyfnod o 23 Mai 2018 i 31 Mawrth 2019 mewn gwirionedd o ganlyniad i waith Meisgyn ynghyd â gweddill Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn RhCT.

Rhoddwyd crynodeb o atgyfeiriadau i'r aelodau ac fe wnaethant ganmol y staff am eu gwaith caled gan fod y gwasanaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran atal plant rhag gorfod derbyn gofal.

Ar ôl trafod yr adroddiad ymhellach **PENDERFYNWYD** cydnabod ei gynnwys

## 26 Adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth Diogelu wybodaeth i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â Gwasanaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol.

Clywodd yr Aelodau fod y Gwasanaeth ar hyn o bryd yn cynnwys 11 swydd

Swyddog Adolygu Annibynnol amser llawn. Mae 3 ohonynt yn cael eu llenwi gan 6 aelod o staff rhan amser, a Rheolwr Carfan sy'n cael ei reoli gan y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu.

Nododd y Swyddog, ar gyfartaledd, mai nifer y plant a wnaeth dderbyn gofal gan RhCT ar gyfer y cyfnod hwn yw 677, sydd 11 yn llai na'r cyfnod adrodd blaenorol. Nodwyd hefyd bod patrwm parhaus o fwy o fechgyn na merched yn derbyn gofal, gyda'r mwyafrif o dan 12 oed.

Aeth y Swyddog ymlaen i egluro bod 61 o adolygiadau wedi'u cynnal y tu allan i'r amserlen ofynnol; sy'n cynrychioli 6.87% o'r cyfanswm sy'n ddyledus. Mae'r gostyngiad yn y cyfnod adrodd diwethaf ac yn is na'r targed o 98.5%, ond esboniwyd bod y targed hwn wedi'i osod cyn i nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal godi'n sylweddol, ac ni fu cynnydd yn nifer y swyddi Swyddog Adolygu Annibynnol.

Roedd Aelod eisiau eglurhad ynghylch a oedd cefnogaeth fusnes ddigonol i helpu gyda'r gwaith. Esboniwyd bod y gwasanaeth yn gwneud yn dda ar hyn o bryd, ond mae pryder ynghylch gofod lleoliadau ac mae'r gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i le addas i'r cyfarfodydd cyfrinachol hyn gael eu cynnal.

Mewn perthynas â chyfathrebu, holodd yr Aelod am yr hyn a oedd yn cael ei wneud i wella'r broses. Esboniodd y swyddogion fod y gwasanaeth yn edrych ar ddulliau newydd ac yn ceisio dod o hyd i ffordd well o gyfathrebu ac ymgysylltu wrth symud ymlaen.

Ar ôl trafod yr adroddiad ymhellach **PENDERFYNWYD** cydnabod ei gynnwys.

## 27 **Strategaeth Comisiynu Lleoliadau RhCT Mai 2019 - Ebrill 2022**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal Strategaeth Comisiynu Lleoliadau RhCT rhwng Mai 2019 ac Ebrill 2022 i'r Aelodau.

Esboniwyd bod strategaeth comisiynu lleoliadau Rhondda Cynon Taf yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r gwasanaeth lleoli a'n comisiynu allanol hyd at 2022. Mae'r strategaeth yn rhoi cipolwg i'n gwasanaethau cyfredol a, thrwy ddadansoddi gwybodaeth reoli am ein patrymau comisiynu cyfredol, yn nodi ein meysydd blaenoriaeth. Mae'r strategaeth yn dwyn ynghyd mewn un ddogfen y llinynnau a nodwyd o ran comisiynu lleoliadau. Nod hyn yw sicrhau bod gweledigaeth glir, sy'n sail i'n dull o gomisiynu, a sicrhau bod y weledigaeth yma'n cyd-fynd â'n cynllun corfforaethol.

Cyflwynwyd y meysydd blaenoriaeth i'r aelodau:

- Recriwtio rhagor o rieni maeth sy'n gallu diwallu anghenion mwy cymhleth y plant a phobl ifainc.
- Darparu rhagor o leoliadau preswyl mewnol yn yr ardal leol i ddiwallu anghenion.
- Darparu pecynnau cymorth gwell i gynhalwyr i'w hannog i wneud cais am Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig yn hytrach na bod yn rieni maeth sy'n berthnasau.
- Darparu ystod o lety ar gyfer unigolion 16+ a rhai sy'n gadael gofal.
- Gwella ein prosesau comisiynu ar gyfer lleoliadau allanol gan gynnwys gwaith comisiynu integredig gyda phartneriaid allweddol.

- Datblygu model ailuno fel bod modd i bobl ifainc ddychwelyd yn ddiogel at aelodau o'u teulu.

O ran y camau nesaf, dywedodd y swyddog wrth yr Aelodau y bydd y strategaeth yn llywio lleoliadau mewnol a dull gweithio mewn partneriaeth o ran comisiynu lleoliadau gyda rhanddeiliaid ac ystod o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn ni'n llunio Datganiad Sefyllfa'r Farchnad a fydd yn cael ei gyhoeddi.

Diolchodd yr aelodau i'r Swyddogion am yr adroddiad a chyflwyno eu cwestiynau a'u harsylwadau.

Tynnodd Aelod sylw at y sylw diweddar yn y cyfryngau ynglŷn â chartrefi preswyl annibynnol a'r ffaith nad yw'r cartrefi hyn wedi'u rheoleiddio, a gofynnodd am rywfaint o eglurder ynghylch lle roedd yr Awdurdod Lleol yn sefyll.

Esboniwyd, fel awdurdod, bod angen rhagor o leoliadau ar gyfer ein plant ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â chynllunio strategol. Rydym hefyd yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu'r hyn sydd ei angen ar ein pobl ifainc. Mae gan y 4C fframwaith hyblyg.

Parhaodd yr Aelodau i graffu ar yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD** cydnabod a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y strategaeth comisiynu lleoliadau.

## 28 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 29 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedd i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o drefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 30 Medi 2019.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Ar ôl ystyried yr Adroddiad **PENDERFYNWYD** cydnabod cynnwys yr adroddiad ac awgrymu y byddai'r Aelodau'n elwa o gael golwg ar astudiaethau achos ar gyfer cwynion a chanmoliaethau wrth symud ymlaen.

## 30 Adroddiadau Rheoliad 73

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal ddiweddariad i'r Aelodau am y gwaith monitro a wnaed o dan Reoliad 73 o'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) a'r sefyllfa bresennol yn ein Cartrefi Plant Preswyl a'n

Gwasanaethau Egwyl Byr ar gyfer plant anabl am y cyfnod o Awst 2019 i Hydref 2019.

Ar ôl trafod yr adroddiad ymhellach **PENDERFYNWYD** cydnabod ei gynnwys.

**31 Carn Ingli - Cartref Plant newydd RhCT**

Rhoddwyd diweddariad i aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â Chartref Plant Rhondda Cynon Taf sydd newydd ei gofrestru.

Yn dilyn trafodaeth, llongyfarchodd yr Aelodau waith caled pawb a gymerodd ran a **PHENDERFYNWYD** cydnabod cynnwys yr adroddiad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm**

**Y Cyngorydd G Hopkins:  
Cadeirydd.**